# CYNGOR SIR

# DYDD MERCHER, 24 MAI 2023

**YN BRESENNOL:** y Cynghorydd R.E. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | K.V. Broom | J.M. Charles | D.M. Cundy |
| C.A. Davies | T.A.J. Davies | B. Davies | G. Davies |
| H.L. Davies | L. Davies | S.L. Davies | T. Davies |
| M. Donoghue | L.D. Evans | N. Evans | W.T. Evans |
| S. Godfrey-Coles | J.P. Hart | T.M. Higgins | J.K. Howell |
| P.M. Hughes | P. Hughes-Griffiths | M. James | R. James |
| G.H. John | A.C. Jones | D. Jones | G.R. Jones |
| H. Jones | A. Lenny | N. Lewis | K. Madge |
| D. Nicholas | D. Owen | M. Palfreman | B.D.J. Phillips |
| D. Price | E. Rees | B.A.L. Roberts | E. Skinner |
| D. Thomas | E.G. Thomas | G.B. Thomas | M. Thomas |
| J. Tremlett | A. Vaughan Owen | | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| L.R. Bowen | M.D. Cranham | S.A. Curry | A. Davies |
| W.R.A. Davies | C. Davies | L.M. Davies | A. Evans |
| D.C. Evans | H.A.L. Evans | A.D. Harries | J.D. James |
| J.P. Jenkins | B.W. Jones | M.J.A. Lewis | A.G. Morgan |
| S.L. Rees | E.M.J.G. Schiavone | J. Seward | H.B. Shepardson |
| F. Walters | P.T. Warlow | D.E. Williams | J. Williams |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
A. Williams, Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aeolodau;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aeolodau.
**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 10.00 yb - 11.30 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Cooper, K. Davies, A. Leyshon a R. Sparks.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION PERSONOL / CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD YMADAWOL**

Croesawodd y Cynghorydd Rob Evans, sef y cadeirydd a oedd yn ymddeol, westeion nodedig, Cynghorwyr, staff a ffrindiau i'r cyfarfod. Soniodd am ei flwyddyn yn y swydd a'r digwyddiadau a'r dathliadau roedd wedi'u mynychu gyda'i gydymaith, Mrs Joyce Williams.

Diolchodd y Cadeirydd oedd yn Ymddeol i'r Prif Weithredwr, Wendy Walters, Linda Rees-Jones a Gaynor Morgan am eu cyngor a'u harweiniad proffesiynol, a staff yr awdurdod a oedd wedi cefnogi gwaith y Cadeirydd gan gynnwys ei waith i godi arian ar gyfer Hosbis Tŷ Bryngwyn ac Ambiwlans Awyr Cymru. Yn ddiweddar roedd wedi cyflwyno siec i'r ddwy elusen am £2,500.00 yr un. Diolchodd i'w yrrwr, Jeff Jones, ac i Eira Evans am ei chefnogaeth broffesiynol a phersonol, wrth drefnu ei ddigwyddiadau a gofalu bod pob dim yn mynd yn hwylus bob amser. Talodd deyrnged i'w gydymaith, Mrs. Nysia Evans Charles-Davies, a oedd wedi bod wrth ei ochr dros y 12 mis diwethaf a diolchodd yn ffurfiol iddi am ei chefnogaeth. Yn olaf , dymunodd yn dda i Ddarpar Gadeirydd y Cynghorydd Louvain Roberts a'i chymar, Mrs Vanessa Rees, yn ei blwyddyn yn y swydd.

**4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

**5. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-24**

**Cynigiwyd gan y Cynghorydd R. Evans ac eiliwyd gan y Cynghorydd J. Tremlett a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd B.A.L. Roberts yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2023/24.**

Llongyfarchodd y Cynghorydd R. Evans y Cynghorydd Roberts ar ei hetholiad.

Gwnaeth y Cynghorydd Louvain Roberts ei datganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol.

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r holl Gynghorwyr am eu cefnogaeth wrth ei phenodi'n Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at ei blwyddyn yn y swydd yn cynrychioli'r Cyngor. Talodd y Cynghorydd Roberts deyrnged hefyd i'r Cadeirydd oedd yn Ymddeol, y Cynghorydd R. Evans, a chyflwynodd Grogdlws Cyn-gadeirydd iddo.

Talwyd teyrngedau i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru, y Cynghorydd Jane Tremlett, Arweinydd y Grŵp Annibynnol, a'r Cynghorydd Rob James, Arweinydd y Grŵp Llafur. Talodd y Dirprwy Brif Weithredwr, ar ran y Prif Weithredwr, nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod oherwydd salwch, a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, deyrnged hefyd i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol.

6. **ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-24**

**Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Price ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd Handel Davies yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2023/24.**

Arwisgwyd y Cynghorydd Handel Davies â'r Gadwyn Swyddogol gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Louvain Roberts, a gwnaeth ei ddatganiad yn derbyn y swydd. Mynegodd yr Is-gadeirydd ei werthfawrogiad i'r Cyngor ar ei benodiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor nad oedd Cydymaith yr Is-gadeirydd, Mrs Margaret Davies, yn gallu bod yn bresennol ac y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i gadwyn y Cydymaith gael ei hanfon ati.

Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Is-gadeirydd a'i Gydymaith ar eu penodiadau.

7. **DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2022-23**

Cyflwynodd yr Arweinydd ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor am y cyfnod 2022/23 [ynghlwm â'r cofnodion hyn], a soniodd am yr angen i ystyried beth oedd wedi cael ei gyflawni hyd yma a beth oedd angen ei wneud o hyd.

Cafodd Arweinwyr y Grŵp Annibynnol a'r Grŵp Llafur gyfle i wneud sylwadau ar adroddiad yr Arweinydd.

**PENDERFYNWYD nodi Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd ar gyfer 2022/23.**

8. **PENODI AELODAU I BWYLLGORAU CRAFFU, RHEOLEIDDIO, A PHWYLLGORAU ERAILL AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2023-2024**

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar aelodaeth arfaethedig Pwyllgorau a Phaneli Rheoleiddio, Craffu, ac Eraill.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

**PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo penodi aelodau i Bwyllgorau Rheoleiddio, Craffu a Phwyllgorau Eraill fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

9. **YSTYRIED YR ENWEBIADAU A DDAETHAI I LAW A PHENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU / PANELAU'R CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-2024**

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r enwebiadau oedd wedi dod i law ar gyfer penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau am Flwyddyn y Cyngor 2023/24.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

**PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac yn Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2023/24:-**

| PWYLLGOR / PANEL | CADEIRYDD | IS-GADEIRYDD |
|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio | Y Cynghorydd D.M. Cundy | Y Cynghorydd B.W. Jones |
| Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol | Y Cynghorydd A.G. Morgan | Y Cynghorydd K.V. Broom |
| Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg | Y Cynghorydd C. Jones | Y Cynghorydd S.M. Allen |
| Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd | Y Cynghorydd K. Madge | Y Cynghorydd K. Davies |
| Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Y Cynghorydd H.A.L. Evans | Y Cynghorydd B.A.L. Roberts |
| Pwyllgor Apêl | Y Cynghorydd J.K. Howell | Y Cynghorydd L. Davies |
| Pwyllgor Penodi A – Cyfarwyddwyr | Y Cynghorydd D. Price | Y Cynghorydd S.M. Allen |
| Pwyllgor Penodi B - Penaethiaid Gwasanaeth | Y Cynghorydd J. Tremlett | Y Cynghorydd D. Price |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | Y Cynghorydd L. Davies | Y Cynghorydd W.T. Evans |
| Y Pwyllgor Trwyddedu | Y Cynghorydd J.M. Charles | Y Cynghorydd D. Phillips |
| Pwyllgor Penodi Aelodau | Y Cynghorydd J. Lewis | Y Cynghorydd W.R.A. Davies |
| Y Pwyllgor Cynllunio | Y Cynghorydd W.T. Evans | Y Cynghorydd C. Jones |
| Y Panel Adolygu Tai | Y Cynghorydd B.W. Jones | Y Cynghorydd G.B. Thomas |
| Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed | Y Cynghorydd D.E.Williams | Heb fod yn ofynnol |

## 10. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYFANSODDIAD

Atgoffwyd y Cyngor o'r gofyniad iddo adolygu ei Gyfansoddiad yn flynyddol a'i fod, fel rhan o'r broses honno, wedi sefydlu Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad [CRWG] i gyflwyno unrhyw newidiadau a argymhellir.

Dywedwyd er na fu unrhyw newidiadau deddfwriaethol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i newidiadau gael eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor, byddai angen i'r Cyngor gadarnhau'r cyfansoddiad cyfredol a diwygio Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu symiau rhagnodedig Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w talu i Gynghorwyr ar gyfer 2023-24.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**10.1 yn unol â'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, i fabwysiadu Cynllun Cyflogau a Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2023-2024, fel y nodir yn Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad;**

**10.2 mabwysiadu'r newid i Erthygl 6 o'r Cyfansoddiad o ran craffu ar rôl y Dirprwy Arweinydd;**

**10.3 mabwysiadu Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer 2023-2024 yn amodol ar y newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n codi o benderfyniadau yn argymhellion 10.1 a 10.2 uchod;**

**10.4 bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw fân newidiadau, cywiro gwallau teipio neu wallau drafftio a sicrhau bod yr holl groesgyfeiriadau yn y Cyfansoddiad yn gywir ac y rhoddir gwybod am y rhain i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad pan fydd angen.**

## 11. AELODAETH AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd R. Evans yn cael ei benodi i gymryd lle'r Cynghorydd K. Madge fel cynrychiolydd y Grŵp Llafur ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

| ________________________ | ________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

## ATODIADAU

## ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR AR GYFER 2022-23

“Mae'n anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio ers i ni i gyd gael ein hethol i'r lle hwn i gynrychioli pobl Sir Gaerfyrddin ac mae wedi bod yn flwyddyn ddiddorol iawn. Un o’r pethau cyntaf a wnaethom fel Cabinet oedd cynllunio i roi ar waith yr hyn yr etholwyd y weinyddiaeth hon i’w wneud, a thros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gosod sylfeini cadarn yn ein Datganiad Gweledigaeth ac yn y Strategaeth Gorfforaethol i gyflawni hyn. Ar ôl blwyddyn a chyda phedwar arall i fynd gallwn weld llwybr clir o'n blaenau. Mae heddiw yn gyfle i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf a'r hyn sydd gennym i ddod.

Cyhoeddwyd ein Datganiad Gweledigaeth ym mis Gorffennaf y llynedd yn dilyn trafodaethau trawsbleidiol. Fel y dywedais yn fy anerchiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd 'nid monopoli unrhyw unigolyn neu un grŵp gwleidyddol yw syniadau da' ac yn dilyn blwyddyn o gydweithio rwy'n dal i gredu bod hynny'n wir. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu parodrwydd i gyfrannu at ein gwaith a gobeithio y bydd y dull cilyddol hwn a'r wleidyddiaeth aeddfed yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Datganiad Gweledigaeth yn parhau i fod yn drywydd gweithredu o'r hyn a addawsom wrth fynd o ddrws i ddrws y llynedd a dyna y byddwn yn atebol amdano dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni'r ymrwymiadau hynny a amlinellir yn Natganiad Gweledigaeth y Cabinet a chynlluniau cyflawni manwl a fydd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd, ac a fydd yn nodi'r union gamau y byddwn yn eu cymryd fel Cyngor i wneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion. Mae pedwar amcan o fewn y Strategaeth Gorfforaethol, sef Dechrau'n Dda, Byw a Heneiddio'n Dda, Cymunedau Ffyniannus, ac Ein Cyngor. Dylwn nodi ein bod hefyd wedi nodi meysydd allweddol datgarboneiddio, argyfyngau hinsawdd a natur, a'r Gymraeg fel blaenoriaethau thematig ac, ynghyd â ffocws ar gydraddoldeb, byddwn yn sicrhau bod y meysydd allweddol hyn yn cael eu hymgorffori a'u datblygu ym mhopeth a wnawn.

Amcan Llesiant 1 yw Dechrau'n Dda. Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, rydym yn gwybod pam mae hyn yn bwysig - mae'r dechrau gorau yn lleihau anghydraddoldebau yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod pob plentyn yn Sir Gaerfyrddin yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn aml iawn mae angen i ni fuddsoddi er mwyn gwneud hynny.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi agor dwy ysgol newydd, agorwyd Ysgol y Castell yng Nghydweli ym mis Ionawr, adeilad newydd gyda'r gallu i ddarparu addysg gynradd ar gyfer 270 o blant ysgol gynradd a 30 o ddisgyblion meithrin, gyda lle ychwanegol i ddarparu gofal Blynyddoedd Cynnar. Ym mis Rhagfyr y llynedd agorwyd Ysgol Gorslas newydd sbon, mae gan yr ysgol y capasiti i groesawu a darparu addysg cyfrwng Cymraeg i 210 o ddisgyblion, rhwng 4 ac 11 oed.

Rydym ar y trywydd iawn i ddarparu Prydau Ysgol Am Ddim i bob plentyn Ysgol Gynradd erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Rydym eisoes yn darparu Prydau Ysgol Am Ddim ar gyfer Meithrin, Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2 o ganlyniad i'r cytundeb cydweithredu rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae'n braf bod ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru y llynedd. Fel rhan o'r cynllun bydd mwy o ysgolion yn symud i gyfrwng Cymraeg dros y 10 mlynedd nesaf gan greu cyfle i fwy o ddysgwyr gael eu haddysgu yn ddwyieithog. Mae'n cynnwys addysgu rhagor o blant y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg; mwy o bobl ifanc sy'n astudio ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg, gan gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol; a chynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg – gyda chymorth parhaus i ddatblygu staff drwy raglen hyfforddi gynhwysfawr a hyblyg.

Yn dilyn ychydig flynyddoedd anodd, rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gefnogi ysgolion i ddelio ag effeithiau'r pandemig. Mae rhai mentrau i wella presenoldeb ac ymddygiad o fewn ysgolion yn dilyn Covid er enghraifft wedi dod â ffocws ychwanegol i'r sefyllfa. Mae'n parhau i fod

yn gyfnod anodd ar draws llawer o leoliadau ym myd addysg a hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith parhaus yn ystod cyfnod anodd o newid.

Un o'r tasgau anoddaf i'r Cabinet eleni yw gosod cyllideb ddrafft i'r Cyngor ei hystyried. Mae blynyddoedd o fesurau cyni wedi arwain at ein sefyllfa bresennol - torri, lleihau, gweld a allwn ni dorri ychydig yn fwy oddi ar wasanaeth neu ddarpariaeth. Fodd bynnag, o ran toriadau i addysg, rydym wedi ceisio amddiffyn ysgolion yn gyson rhag toriadau dros y blynyddoedd diwethaf a byddwn yn parhau i wneud hynny ond mae pob blwyddyn yn dod yn fwyfwy heriol. Rwy'n gwbl hyderus yn ein Hadran Addysg, rwy'n gwybod eu bod yn gweithio ar eu gorau i ddarparu'r addysg orau bosibl i'n plant, ond rwy'n poeni am y pwysau y mae Penaethiaid ac Uwch-reolwyr yn eu hwynebu yn barhaus i geisio cyflawni mwy gydag adnoddau cyfyngedig.

Dim ond yr wythnos diwethaf ymwelodd y Prif Weithredwr a minnau â'r Gwasanaethau Plant yn Llanelli ac rwy'n hynod falch o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu o dan amgylchiadau heriol. Mae ein ffocws ar wasanaethau ataliol a chadw teuluoedd gyda'i gilydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac o ganlyniad mae gennym un o'r cyfraddau isaf o Blant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru. Yn wir, dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein gwaith yn y maes hwn wedi cael ei nodi gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol ein bod yng nghanol Pythefnos Gofal Maeth sydd â'r nod o gynyddu nifer y gofalwyr maeth yn Sir Gaerfyrddin a bod ganddynt rôl hanfodol yn y Gwasanaethau Plant. Bore yma hoffwch ddiolch i'n holl staff, gofalwyr maeth a phartneriaid sy'n gweithio yn y maes hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gwaith rydych chi'n ei wneud ar ein rhan.

Amcan Llesiant 2 Byw a Heneiddio'n Dda – sy'n canolbwyntio ar alluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda, ac Amcan Llesiant 3 Cymunedau Ffyniannus – sy'n ceisio darparu cymunedau ac amgylcheddau ar gyfer amgylchedd iach, diogel a ffyniannus yn ganolog i'n gweledigaeth fel Cabinet.

Rydym yn gwybod bod tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae dros draean o'n haelwydydd yn parhau i fyw mewn tlodi (35.6%), lefel sydd wedi cynyddu dros y deng mlynedd diwethaf heb gael ei helpu gan gyni Torïaidd. Rydym yn gwybod bod y sir hon yn parhau i wynebu argyfwng costau byw ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r mater hwn yn uniongyrchol. Mae gennym ymgynghorwyr newydd yn ein canolfannau Hwb sy'n darparu cyngor cyllidebu a budd-daliadau. Rhyddhawyd £180,000 o'r Gronfa Dlodi ar gyfer trigolion lleol a grwpiau cymunedol i ddarparu Mannau Croeso Cynnes, agoron ni ein llyfrgelloedd yng Nghaerfyrddin, Llanelli, a Rhydaman fel mannau cynnes yn ogystal â chefnogi partneriaid trydydd sector i ddarparu cefnogaeth yn y gymuned. Byddwn yn parhau i gefnogi ein trigolion fel yr ydym bob amser yn ei wneud, ac i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y mater hwn rydym wedi sefydlu panel ymgynghorol trawsbleidiol ar fynd i'r afael â thlodi i adrodd i'r Cabinet yn rheolaidd.

Yn gynharach eleni penderfynon ni weithredu'n bendant i fynd i'r afael â'r diffyg tai fforddiadwy drwy gyflwyno premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag. Y bwriad o ran cyflwyno premiwm ar ail gartrefi a thai gwag tymor hir yw naill ai annog mwy o ddefnydd o'r tai hyn, neu sicrhau bod eu perchnogion yn cyfrannu mwy tuag at ein cymunedau. Erbyn y flwyddyn 2025/26, gallai cyfanswm y premiwm ar gyfer y ddau ddosbarth godi unrhyw beth hyd at £3m o bosibl, fel cyfraniad i'n helpu i gynnal gwasanaethau hanfodol, neu gellid rhyddhau tai i fod yn gartrefi ar gyfer trigolion Sir Gaerfyrddin, yn dibynnu ar ymateb y perchnogion.

Fel y gwyddoch eisoes, mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r cynllun yn nodi egwyddorion ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn amlinellu sut y bwriadwn gyflawni ein cyfrifoldebau fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau ac fel arweinydd cymunedol. Byddwn yn annog aelodau'r cyhoedd i ymateb i'r ymgynghoriad gan y bydd yn helpu i lunio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf a fydd ar waith rhwng 2024 a 2028.

Rwy'n falch bod cynnydd yn cael ei wneud mewn ymrwymiad gan y Datganiad Gweledigaeth i gynyddu lefel y ddarpariaeth fewnol ym maes gofal cymdeithasol ac ail-gydbwyso'r farchnad yn lleol. Un o gonglfeini cyflawni hyn yw cynyddu ein gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae pwysau sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi tynnu sylw at yr pwysigrwydd angen am weithlu cryf. Haf diwethaf gwnaethom lansio Academi Gofal newydd sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous i'r rhai sy'n awyddus i gael gyrfa ym maes gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol. Yn agored i

bob oedran, mae'r Academi yn darparu hyfforddiant, cymorth ac arweiniad, gan alluogi ymgeiswyr i ennill cyflog wrth ddysgu a dewis llwybr gyrfa sydd fwyaf addas iddynt. Drwy gyfuniad o addysg a hyfforddiant yn y swydd, mae cyfleoedd amrywiol i archwilio'r amrywiaeth o rolau gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol sydd ar gael. Rwy'n awyddus iawn i weld ein bod yn hyrwyddo hyn fel llwybr gyrfa yn ein hysgolion a'n canolfannau addysg bellach. Mae diwygio sylweddol o ran gwella telerau ac amodau ein staff mewnol a mentrau ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud gwahaniaeth ac mae'r nifer sy'n aros am ofal Cartref yn yr ysbyty a'r gymuned bellach yn gostwng i lefelau cyn y pandemig. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, byddwn yn agor ein cartref plant cyntaf sy'n cael ei redeg gan y cyngor yn yr hydref gan ein galluogi i ail-gydbwyso marchnad nad yw wedi gwasanaethu'n plant yn dda.

Cymunedau lle gall pawb ffynnu yw cymunedau ffyniannus. Lle mae cyflogaeth, trafnidiaeth, hamdden a gwasanaethau sy'n hygyrch i bawb. Mae diffyg cymwysterau neu sgiliau, trafnidiaeth, mynediad at wasanaethau i gyd yn rhwystrau i weithgarwch economaidd. Mae darparu swyddi diogel sy'n talu'n dda i bobl leol yn hanfodol.

Mae ein Strategaeth Arloesi a lansiwyd yr wythnos diwethaf yn ganolog i'r weledigaeth honno ac mae'n ceisio nodi cynigion i gefnogi adferiad ac ailstrwythuro economi Sir Gaerfyrddin drwy arloesi. Mae ffocws y strategaeth ym meysydd yr Economi Sylfaenol; Iechyd a llesiant; Arloesi Digidol ac effaith Newid Hinsawdd a'r cyfleoedd y gallai harneisio Economi Gylchol eu cael ar y sir.

O ran yr amgylchedd, mae wedi bod yn wych gweld datblygiad ETO yn Nant-y-caws a Llanelli a symud ymlaen i wneud ein fflyd yn fwy gwyrdd. Byddai'n esgeulus i mi adrodd ar ddatblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf heb gyfeirio at y newidiadau sylweddol i'n casgliadau sbwriel. Ym mis Ionawr dechreuon ni gasglu bagiau glas a gwastraff bwyd bob wythnos ochr yn ochr â gwasanaeth casglu gwydr newydd ar ymyl y ffordd bob tair wythnos. Mae'n braf ein bod eisoes yn gweld newidiadau cadarnhaol o ran cyfraddau ailgylchu a fydd, rwy'n siŵr, yn cael eu hadlewyrchu yn erbyn ein targedau statudol.

Rydym hefyd wedi gweld datblygiad o ran y cynllun bwyd cynaliadwy sy'n cefnogi rhan o raglen waith y BGC. Mae ein Strategaeth Fwyd Leol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ac mae'n cael ei hadolygu gan bartneriaid a rhanddeiliaid y BGC. Bydd mabwysiadu Strategaeth Fwyd Leol a gosod targedau uchelgeisiol yn cadarnhau sylfeini Sir Gaerfyrddin fel yr ardal awdurdod lleol arweiniol yng Nghymru o ran gweithredu ar fwyd cynaliadwy.

O ran Trafnidiaeth a Seilwaith, rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r prosiect bysiau a seilwaith trydan T1 drwy adeiladu cyfleuster bysiau newydd yn Nant-y-ci a chwblhau ffordd gyswllt Cross Hands sy'n allweddol ar gyfer datblygiad economaidd o amgylch safle cyflogaeth strategol Cross Hands. Mae seilwaith Teithio Llesol newydd wedi'i adeiladu i gefnogi teithio mwy cynaliadwy ac mae cynnydd yn parhau ar Lwybr Dyffryn Tywi gyda'r cais Cynllunio wedi'i gyflwyno a'r prosesau prynu tir angenrheidiol ar waith.

Yn bwysig, rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar ddatblygu strategaeth trafnidiaeth gymunedol ac yn parhau i lobïo dros ddarparu ffordd osgoi Llandeilo.

Rydym hefyd wedi parhau â'n hymrwymiad i adeiladu mwy o gartrefi yn Sir Gaerfyrddin. Mae ein cartrefi newydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael â thlodi. Mae cartrefi ar ein safleoedd mwy newydd gan gynnwys Teras Glanmor ym Mhorth Tywyn yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern, mae ganddynt lefelau eithriadol o uchel o insiwleiddio i helpu i leihau'r gwres sy'n cael ei golli ac maent yn cynnwys technoleg adnewyddadwy gan gynnwys paneli solar, pwyntiau gwefru cerbydau trydan a man storio batris sy'n helpu i ddarparu biliau ynni is i denantiaid. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu tai sydd wedi'u cynllunio gydag ystod ehangach o fesurau a fydd yn lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon, gan gefnogi ein hymrwymiad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030.

O ran hamdden, agorwyd Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn ym mis Mawrth, a chefais y pleser o fod yn bresennol yn yr agoriad swyddogol. Mae gan Bentywyn hanes unigryw o ran record cyflymder y byd dros dir yn ogystal â bod yn un o'r darnau mwyaf prydferth o draeth yn y wlad. Mae'r prosiect yn cynnwys y 'Caban' - llety sydd wedi'i adeiladu gan ddefnyddio technolegau adeiladu cynaliadwy. Mae Caban, sy'n edrych dros y traeth, yn cynnwys bwyty a bydd yn darparu ar gyfer y farchnad gwyliau cerdded a chwaraeon antur awyr agored yn ogystal â'r rhai sy'n chwilio

am brofiad arfordirol. Mae'n gymaint o bleser gweld y datblygiad ym Mhentywyn, ac rwy'n siŵr y bydd o fudd i drigolion lleol ac ymwelwyr â'r ardal.

Bydd aelodau'n ymwybodol ein bod wedi lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar a fydd yn darparu buddsoddiad ychwanegol o £36.68m i helpu i gyflawni rhai o amcanion strategol allweddol Sir Gaerfyrddin. Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu cyfleoedd newydd i gymunedau lleol, yn cefnogi datblygiad a thwf busnesau lleol yn ogystal â chefnogi adferiad canol ein trefi ac mae'n gymysgedd o gyllid refeniw a chyfalaf y gellir ei ddefnyddio i gefnogi cymunedau. Rydym hefyd wedi lansio ail gam y Rhaglen ARFOR gwerth £11 miliwn, sy'n ceisio sicrhau hwb economaidd a chryfhau'r Gymraeg ar draws siroedd Gwynedd, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn, ac rydym bellach yn gwahodd ceisiadau i'w Chronfa Cymunedau Mentrus. Daw ail gam y Rhaglen arloesol hon fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ac rydym yn ddiolchgar am hynny.

Mae'r Cabinet yn credu bod gan gaffael lleol ran sylweddol i'w chwarae o ran twf economaidd ac rydym wedi gofyn i swyddogion adolygu'r ffordd y mae ein fframweithiau caffael yn gweithio i gynyddu lefel caffael lleol a chefnogi busnesau lleol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith yn cefnogi Tasgluoedd Canol y Dref yn Rhydaman a Llanelli, a Fforwm Adfywio Canol Tref Caerfyrddin ynghyd â'r fenter Deg Tref ac rwy'n credu'n gryf bod angen i ni ledaenu datblygiad economaidd ar draws y sir.

Yn Llanelli, mae gwaith wedi dechrau ar brosiect Pentre Awel ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar adeilad YMCA yn Llanelli, ac mae disgwyl i waith yng Ngogledd Stryd y Farchnad ddechrau yn ystod y misoedd nesaf. Braf hefyd yw gweld cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer rhannau eraill o Lanelli. Mae adfywio Tyisha yn allweddol i ddatblygiad y dref, gan ddarparu cyswllt pwysig rhwng canol y dref a phrosiect Pentre Awel. Gallai busnesau mewn rhannau penodol o dref Llanelli hefyd elwa o Gronfa Eiddo Gwag Canol Trefi y Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd wedi'i lansio ac sy'n canolbwyntio ar ddod ag eiddo gwag ar y llawr gwaelod yn ôl i ddefnydd masnachol. Mae'r gronfa hon hefyd ar gael ar gyfer rhannau o Gaerfyrddin a Rhydaman. Mae adfywio tref Llanelli yn rhywbeth yr wyf wedi ymrwymo'n bersonol iddo. Rydym am ei wneud yn rhywle lle mae pobl eisiau byw a gweithio drwy ddod â siopau gwag yn ôl i ddefnydd a chreu cartrefi mawr eu hangen. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r holl bartneriaid sy'n rhannu'r uchelgais honno.

Yng Nghaerfyrddin bydd gwaith yn dechrau yn ddiweddarach eleni yn natblygiad HWB fydd yn gartref i'n timau gwasanaeth cwsmeriaid - gan gynnig cyngor a chefnogaeth i'n trigolion. Bydd yr Hwb yn cynnwys campfa yng nghanol y dref, cyfleusterau'r GIG ac amryw o wasanaethau'r cyngor. Bydd hefyd yn darparu cyfleoedd i'n trigolion gael mynediad i addysg bellach ac uwch drwy Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Hefyd yng Nghaerfyrddin rydym yn parhau â chynlluniau datblygu Lôn Jackson, gan gynnwys gwyrddni, seddi awyr agored ar gyfer bwytai a chaffis cyfagos yn ogystal â lle ar gyfer stondinau a digwyddiadau'r farchnad. Mae'r gwaith yn parhau gyda datblygiad Oriel Myrddin, Heol y Brenin.

Mae'r gwaith gwella i orsaf fysiau Caerfyrddin ar fin cael ei gwblhau, ac mae cyllid Mynd i'r Afael â Threfi y Gronfa Ffyniant Gyffredin gwerth £500k wedi nodi 5 prosiect i'w cyflawni yn y dref. Rydym wedi gweithio gydag AGB Caerfyrddin a Chyngor Tref Caerfyrddin i ddenu ymwelwyr ac mae marchnad bwyd a diod fisol yn cael ei chynllunio.

O ran Rhydaman, ymwelais â'r dref gydag aelodau yr wythnos diwethaf, a gwelais gynnydd yn cael ei wneud o ran y Tasglu - gyda chynlluniau i gefnogi canol y dref ymhellach a chynyddu nifer y stondinau marchnad. Mae cae chwaraeon 3G a chyfleusterau hamdden wedi ychwanegu at y cyfleusterau chwaraeon gwych sydd eisoes ar gael yn y dref. Rydym wedi lobïo a byddwn yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol i ailagor rheilffordd Dyffryn Aman i ddarparu gwasanaethau i Rydaman ac i ben Dyffryn Aman fel rhan o Fetro Bae Abertawe, a chredaf y byddai'n hwb sylweddol i'r rhan hon o'r sir.

Fel y bydd aelodau yn ymwybodol rydym wedi cyhoeddi ein hail Gynllun Datblygu Lleol drafft - sy'n ceisio sicrhau datblygiad economaidd a thai ar draws y sir, ac sydd hefyd yn ceisio cryfhau ein polisïau o amgylch ardaloedd tirwedd arbennig. Y cam nesaf yw cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru i'w archwilio'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

Nod Amcan Llesiant 4 – Ein Cyngor – yw moderneiddio a datblygu ein cyngor ymhellach mewn ffordd wydn ac effeithlon.

Yn gynharach eleni cawsom Wobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl sy'n rhyfeddol o ystyried amgylchiadau'r tair blynedd diwethaf. Gwyddom y gallwn addasu fel sefydliad, mae Covid wedi profi hynny, ond roedd gweld ein cyflawniadau yn cael eu cydnabod gan Fuddsoddwyr mewn Pobl fel hyn yn arbennig o bleserus.

Rwy'n gwerthfawrogi gwaith yr Undebau Llafur yn llwyr ac ers dod yn Arweinydd, rwyf wedi cychwyn fforwm ymgynghorol ar y cyd lle mae arweinwyr grwpiau, ynghyd â Wendy, Paul a'r Cynghorydd Phil Hughes yn cwrdd â'n cydweithwyr yn yr undebau llafur bob chwarter fel y gellir codi a thrafod materion allweddol yn uniongyrchol gyda chynghorwyr. O ystyried yr heriau ariannol heriol y bydd yn rhaid i ni eu hwynebu yn y dyfodol, mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio â'r undebau llafur mewn ffordd agored, onest a chydweithredol. Dros y 12 mis diwethaf, fel aelodau, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd, ac rydym wedi llwyddo i gynyddu cyflogau rhai o'n gweithwyr ar y cyflogau isaf, gan gynnwys Gofalwyr Cartref, Gweithwyr Gofal Preswyl, Llwythwyr Sbwriel a Gyrwyr Sbwriel.

Roedd ein Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 yn cymeradwyo'r ychwanegiad Cyflog Byw Gwirioneddol, fel yr ydym wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf, i sicrhau bod ein cyflog isaf yn derbyn yr hyn sy'n cyfateb i £10.90 yr awr. Byddwn yn parhau i weithio gyda Cynnal Cymru ac eraill i archwilio'r posibilrwydd o gydgrynhoi ein dull gweithredu a dod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig.

Yng nghyfarfod y Cabinet ddydd Llun, gwnaethom gymeradwyo'r Cynllun Beicio i'r Gwaith a Benthyciad i Brynu Car, gan gynyddu'r terfyn a'r telerau ar y cynllun beicio i'r gwaith a chyfanswm y benthyciad ymlaen llaw ar y cynllun Benthyciad i Brynu Car i adlewyrchu costau a phwysau cynyddol. Rydym hefyd wedi cynyddu'r gyfradd milltiroedd lle bo angen er mwyn cefnogi cost amrywiol tanwydd.

Mae'r blynyddoedd nesaf yn debygol o fod yr un mor heriol, os nad mwy, gan fod cynnydd mewn costau allanol yn debygol o roi straen ychwanegol ar gyllidebau ariannol. Rydym hefyd yn debygol o barhau i weld cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau fel gofal cymdeithasol yn y cyfnod ôl-Covid hwn, ynghyd â chynnydd yn nisgwyliadau cwsmeriaid hefyd yn ystod y pandemig. Rydym wedi lansio Strategaeth Drawsnewid, rhaglen newid a fydd yn caniatáu i'r Cyngor edrych i'r dyfodol yn hyderus a pharhau i gyflawni ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau er budd ein trigolion yn ein sir. Er bod y Cyngor hwn wedi wynebu heriau digynsail dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gellid dadlau bod y degawd diwethaf wedi bod yn gyfnod o her gyson i lywodraeth leol. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i leihau gwariant cyhoeddus yn sylweddol mewn ymateb i argyfwng ariannol 2008 wedi arwain at her gyllidebol ddifrifol i lywodraeth leol sydd wedi para am gyfnod o dros 10 mlynedd. Mae'r ffaith ein bod wedi gallu parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn ystod cyfnod pan oedd galwadau gwasanaeth hefyd yn cynyddu, yn dyst i'r arloesedd a'r creadigrwydd a ddangoswyd gan staff y Cyngor wrth nodi ffyrdd o ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd mwy effeithlon a diolchaf iddynt am y gwaith y maent wedi'i wneud ar yr agenda hon.

Mae'n gwbl glir ein bod fel cyngor yn wynebu llawer o heriau. Fel aelodau, byddwch eisoes wedi cymryd rhan yn yr adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg dros y misoedd diwethaf. Ac er ein bod yn cynnal adolygiad o'n gwaith ôl troed ysgol yn parhau ar Ysgol Gwenllian ac rydym wrthi'n datblygu ateb i safle arfaethedig Ysgol Dewi Sant, mae'n sefyllfa gymhleth, ac rydym yn awyddus i weithio gyda'r Cyngor Tref a Llywodraeth Cymru ar hynny. Rydym hefyd yn awyddus i ddod o hyd i ateb i ysgolion yn ardal Rhydaman. Mae'n hanfodol bwysig i ni ymgysylltu ag aelodau ar draws y siambr wrth i ni ddatblygu atebion i ddarparu darpariaeth addysg ar draws y sir dros y blynyddoedd nesaf.

Mae ein rhwydwaith ffyrdd yn hanfodol o ran cysylltu cymunedau, gan ddarparu mynediad i swyddi, addysg, gofal iechyd a gwasanaethau ac mae'n clymu cymunedau gyda'i gilydd. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu ôl-groniad hanesyddol o danfuddsoddi wrth gynnal yr wythiennau allweddol hyn ac nid yw Sir Gaerfyrddin yn eithriad. Er ein bod wedi gallu cadw ein ffyrdd prysuraf mewn cyflwr rhesymol, mae'n amlwg bod angen mwy o fuddsoddiad i gynnal y rhwydwaith ffyrdd ehangach. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu parhau â'r Grant Adnewyddu Ffyrdd a ddaeth i ben yn 2021/22 ac a helpodd i osod wyneb newydd ar ein ffyrdd. Mae hyn felly yn her ariannol sylweddol i'r awdurdod.

Mae ein buddsoddiad mewn gosod wyneb newydd wedi gostwng o £3.9m yn 2022/23 i £1.6m eleni er bod costau tendro ar gyfer gosod wyneb newydd wedi cynyddu 30% ers 2020. O ganlyniad, mae gennym swm llai i'w fuddsoddi, ac nid yw'r buddsoddiad hwnnw'n cyflawni cymaint. Gwyddom fod angen tua £8 miliwn bob blwyddyn i gynnal y rhwydwaith mewn cyflwr cyson. Heb fuddsoddiad parhaus, bydd ein ffyrdd yn dirywio, a bydd tyllau yn dod yn bryder cynyddol i'r cyhoedd. Ac mae

hyn yn rhywbeth rwy'n gwbl benderfynol o fynd i'r afael ag ef a byddwn unwaith eto yn croesawu cefnogaeth drawsbleidiol ar hynny.
Mae gennym oddeutu 9,500 o gartrefi o dan ein cyfrifoldeb ac mae maint y gwaith o gynnal ac atgyweirio'r stoc honno yn sylweddol. Ers trosglwyddo gwasanaethau cynnal a chadw y llynedd mae'r Adran Gwasanaethau Cymunedol wedi gweithio'n galed eleni i wella'n sylweddol y ffordd yr ydym yn ymateb i dai gwag ac atgyweiriadau wrth i ni wynebu'r ôl-groniad anochel o waith ar ôl y pandemig. Mae gwaith â ffocws bron wedi haneru nifer y tai gwag yn y system gyda gwelliannau pellach i ddod, gan gynnwys system amserlennu newydd a fydd yn gwbl weithredol erbyn canol 2024. Cyfarfu'r Cabinet â'r Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Gwasanaeth yn y gwanwyn, ac roeddem yn falch iawn o'r cynnydd a wnaed a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld y canlyniadau cadarnhaol yr ydym yn eu disgwyl dros y flwyddyn nesaf.

Her sylweddol i ni dros y blynyddoedd nesaf yw'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Roeddwn yn siomedig iawn bod canlyniadau cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd yn gynharach eleni yn nodi gostyngiad o 4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir. Y gwir amdani yw ein bod yn gweld dirywiad ac mae angen i ni weithredu'n gyflym i atal hyn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Cabinet wedi cymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg am y 5 mlynedd nesaf yn gynharach yr wythnos hon, strategaeth i hybu'r Gymraeg ar draws Sir Gaerfyrddin. Nod y strategaeth yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, balchder ymhlith trigolion yn ogystal â'r defnydd a'r hyder yn y defnydd o'r iaith a hefyd hyrwyddo'r iaith fel norm yn y gweithle ac o fewn y gweithlu a chreu cymunedau Cymraeg llewyrchus.
Rydym wedi cyflawni llawer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o dan amgylchiadau heriol iawn. Byddwn yn parhau i gyflawni ein Datganiad Gweledigaeth dros y flwyddyn nesaf ac rwy'n siŵr y bydd heriau newydd o'n blaenau hefyd. Ond mae ein hamcanion yn gadarn ac mae gennym strategaeth glir ynghylch sut y byddwn yn cyflawni'r nodau hyn.

Hoffwn ddiolch i'r Cabinet a fy nghyd-aelodau ar draws y Siambr am eu cefnogaeth dros y flwyddyn a hefyd i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Corfforaethol am eu cyngor ac i holl swyddogion a staff y cyngor am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.”